# Polisi Amddiffyn Plant




| Dyddiad cymeradwyo (gan y corff llawn) | Hydref 2025 |
|---|---|
| Dyddiad adolygu | Hydref 2026 |

| | |
|---|---|
| Cadeirydd Llywodraethwyr | |
| Pennaeth | |



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**CYFLWYNIAD**

Mae  yn cydnabod yn llawn y cyfraniad a wna tuag at amddiffyn plant.
Ceir tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy'r addysg a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion, a'r defnydd o wasanaethau ataliol, megis Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) mewn ysgolion

- gweithdrefnau er mwyn adnabod a rhoi gwybod am achosion o gam-drin neu niwed, neu achosion posibl. Oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar yr arwyddion allanol o gamdriniaeth,

- cymorth i ddisgyblion sydd mewn angen neu a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn berthnasol i'r holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Gall cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn.
Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac mae wedi ymrwymo i ddilyn unrhyw ganllawiau newydd a dderbynnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu Lywodraeth Cymru.

Yr Uwch Bersonau Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw:-
* **Mr Ioan Jones (Pennaeth)**
*** Mrs Maureen Williams (Pennaeth Cynorthwyol)**
* **Mr Will Lloyd Davies (Cadeirydd Llywodraethwyr)**
* **Mrs Catrin Small (Llywodraethwr)**

**ATAL**

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch da, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly bydd yr ysgol yn:
- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a lle mae ganddynt glust i wrando arnynt
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod yna oedolion yn y lleoliad addysg y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni am rywbeth neu mewn trybini
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer addysg perthnasoedd a rhywioldeb yn y cwricwlwm sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy i droi am help
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolion, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta
- Meithrin perthynas ag asiantaethau eraill a sicrhau bod atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth yn cael eu gwneud cyn i'r risgiau waethygu
- Cymryd ymagwedd ysgol gyfan (lleoliad) tuag at lesiant a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd

**GWEITHDREFNAU**

Dylid dilyn y rhain mewn achos o ddatgeliad/pryder ynghylch amddiffyn plant

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol. Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau bod ganddi Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol. Y person hwn neu'r bobl hyn yw:-
- **Mr Ioan Jones (Pennaeth)**
- **Mrs Maureen Williams (Pennaeth Cynorthwyol)**

- Cydnabod rôl yr Uwch Berson Dynodedig ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant

**Sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:**

- enw'r Uwch Berson Dynodedig a'i rôl, pwynt cyswllt yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
- bod ganddynt gyfrifoldeb unigol am roi gwybod am blant sydd mewn perygl a phryderon yn ymwneud ag amddiffyn i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ynghylch sut i fwrw ymlaen â'r pryderon hynny pan nad yw'r Uwch Berson Dynodedig ar gael

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod, ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr a allai ddatgelucamdriniaeth neu esgeulustod

- Sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn ymwybodol o'r Côd Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion Cyngor y Gweithlu Addysg https://ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga/y-cod a'r disgwyliad o fewn y Côd bod y cofrestrai yn ystyried diogelwch a lles y dysgwyr sydd yn ei ofal a'r cynnwys cysylltiedig

- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y cyfrifoldeb a roddir ar yr ysgol a'r staff am ddiogelu ac amddiffyn plant drwy ddatgan eu rhwymedigaethau yn llyfryn yr ysgol

**Darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:**
– yn deall eu cyfrifoldeb personol
– yn gwybod am y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
– yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeulustod
– yn gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod
– yn deall y rôl y gall ymddygiadau ar-lein ei chael ym mhob un o'r uchod

- **Hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol:**

os yw dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd, naill ai am dymor penodol neu'n barhaol

os oes dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb fod rheswm wedi cael ei roi am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)

gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithredu yn ôl yr angen â'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb yn yr adolygiad cychwynnol yn ogystal â chynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau

cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith

- sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo
- cadw at y gweithdrefnau a nodir yng ngweithdrefnau disgyblu a diswyddo Llywodraeth Cymru ar gyfer staff ysgolion: Canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgol_0.pdf

- sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwylio polisi ac arferion amddiffyn plant yr ysgol.

**CEFNOGI'R RHEINY SYDD MEWN PERYGL**

Rydym yn cydnabod y gall plant/pobl ifanc sydd mewn perygl, sy'n dioddef camdriniaeth neu sy'n profi trais gael eu heffeithio'n ddwfn gan hyn.

Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, diogel a rhagweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai y byddant yn mynd i'w cragen.

**Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r dysgwr drwy'r ffyrdd canlynol:**

• cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant

• ethos yr ysgol:
– yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
– yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i ddysgwyr (gweler adran 2 ar Atal)

• polisi ymddygiad yr ysgol, sy'n ceisio cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniad ymddygiadol y

plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad yr unigolyn o hunan-werth. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw i'w feio am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd

- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr megis swyddogion yr awdurdod lleol – er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r Gwasanaeth Lles Addysg – gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau eiriolaeth

- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn digwydd eto.

- Mae angen i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion hefyd allu dangos eu bod wedi ystyried a oes gan blant yn eu hardal, gan gynnwys plant unigol, unrhyw anghenion diogelu penodol yn ogystal â'r rheiny a gwmpesir gan ganllawiau. Os felly, rhaid bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny.

**Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol.**

Mae pob atgyfeiriad amddiffyn plant yn mynd i

**Y Tîm Atgyfeirio Canolog-**
**01554 742322**
**CRTChildren@sirgar.gov.uk**
**Y tu allan i'r oriau arferol - 0300 333 2222.**

**GWRTH-FWLIO**

Mae ein polisi ar wrth-fwlio wedi'i nodi mewn polisi ymddygiad cadarnhaol yr ysgol a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

**PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Rydym yn cydnabod, yn ystadegol, mai plant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn mwyaf o berygl o gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol, megis anableddau dwys a lluosog, nam synhwyraidd neu broblem emosiynol ac ymddygiadol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

**YMDRIN Â DATGELIADAU A WNEIR GAN BLENTYN**

**Gwrando.**

- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos sioc neu anghrediniaeth.
- Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud. Efallai eich bod yn gwybod nad yw'r plentyn sy'n gwneud y datgeliad bob amser yn dweud y gwir. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i'r hyn rydych chi'n ei wybod am y person hwn eich arwain i farnu ymlaen llaw neu benderfynu nad yw'r honiad yn ddilys.

Peidiwch â cheisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd chi fydd gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth honno ymlaen.

**Rhoi tawelwch meddwl**

- Rhowch ddigon o dawelwch meddwl i'r plentyn. Byddwch yn onest bob amser a pheidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, er enghraifft: “Bydda i'n aros gyda ti", neu, "Bydd popeth yn iawn nawr”.
- Os yw'r disgybl yn sôn am euogrwydd, lleddfwch hynny. Er enghraifft, gallech chi ddweud: "Paid â beio dy hunan. Dim dy fai di yw hyn."
- Peidiwch ag addo cadw'r mater yn gyfrinachol. Bydd dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth ymlaen ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

**Ymateb**

• Gallwch ofyn cwestiynau ac efallai y bydd angen gwneud hynny mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid cyfle yw hwn i holi'r plentyn yn fanwl a'i gwestiynu am amser hir. Dim ond prif bwyntiau'r honiad y mae'r plentyn yn ei wneud sydd angen i chi wybod. Rhaid i unrhyw gwestiynau fod yn agored ac ni ddylent fod yn gwestiynau arweiniol e.e. TED (*Tell me, Explain, Describe*)
T- Ti sy'n dweud,
E- esbonia,
D- disgrifia.

- Peidiwch â beirniadu'r troseddwr honedig gan y gallai'r disgybl fod ag ymlyniad emosiynol cadarnhaol â'r person hwn o hyd.
- Peidiwch â gofyn i'r disgybl ailadrodd ei honiad wrth aelod arall o staff. Os gofynnir i'r plentyn ei ailadrodd, efallai y bydd yn teimlo nad ydych yn ei gredu a / neu gall ei atgof o'r hyn a ddigwyddodd newid.

**Cofnodi**

- Cymerwch nodiadau cyn gynted ag y mae'n ymarferol gwneud hynny. Cofnodwch yr union eiriau a ddywedodd y plentyn – peidiwch â'u cyfieithu i'r ffordd y mae oedolion yn siarad na cheisio gwneud synnwyr o strwythur yr hyn a ddywedwyd).

Peidiwch â chael eich tramgwyddo gan unrhyw iaith neu eiriau sarhaus a ddefnyddir i ddisgrifio'r gamdriniaeth).

- Nodwch yr amser a'r dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen gan lys.

- Lle bo hynny'n bosibl, nodwch ble mae gan y plentyn unrhyw gleisiau neu anafiadau, ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddillad at y diben hwn.
- Cofnodwch ddatganiadau a'r pethau y gallwch eu gweld, yn hytrach na'ch dehongliadau neu'ch rhagdybiaethau.

**Camau Olaf**

- Ar ôl i chi ddilyn y canllawiau uchod, trosglwyddwch y wybodaeth **ar unwaith** i'r Uwch Berson Dynodedig neu'r person sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant. Yna bydd ganddynt sawl opsiwn, gan gynnwys cysylltu â'r Gwasanaethau Plant i ofyn am eu cyngor ynglŷn â beth ddylai ddigwydd nesaf.

**CYFRINACHEDD**

Gyda golwg ar amddiffyn plant, nid yw'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei thorri pan fo hyn er budd pennaf y plentyn ac er budd y cyhoedd ehangach. Os yw gweithwyr proffesiynol yn barnu bod datgeliad yn angenrheidiol i amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag risg o niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd. Dylai staff gyfeirio at ganllawiau'r Awdurdod Lleol "Canllawiau i Ysgolion: Caniatâd ar gyfer atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant / Tîm o Amgylch y Teulu”.

Pan fydd y rheiny mewn lleoliadau addysg yn barnu bod angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i blant neu'r heddlu:

- dylent geisio cefnogi'r plentyn
- gallant drafod yr achos yn ddienw i ddechrau gyda chydweithwyr perthnasol eraill, fel yr Uwch Berson Dynodedig neu gydweithiwr arall sydd â chymhwysedd addas mewn diogelu neu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i blant.
- dylid rhoi gwybod i'r plentyn bod angen i'r gweithiwr proffesiynol rannu gwybodaeth gyfrinachol, oni bai y gallai gwneud hynny ei roi mewn perygl pellach
- dylai unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth neu beidio gael ei gofnodi'n briodol.

Mae angen i benderfyniadau yn y maes hwn gael eu gwneud gan, neu gyda chyngor, pobl sydd â chymhwysedd diogelu addas, fel y gweithwyr proffesiynol dynodedig a enwir.

**YMDRIN Â HONIADAU YN ERBYN OEDOLION SY'N GWEITHIO GYDA PHLANT**

Os bydd honiad yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei wneud yn erbyn aelod o staff, rhaid i'r person sy'n derbyn yr honiad hwnnw roi gwybod ar unwaith i'r Pennaeth am

fanylion y pryder, neu yn ei absenoldeb, i'r aelod o staff â chyfrifoldebau Pennaeth. Yna bydd y Pennaeth yn cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a'r Tîm Atgyfeirio Canolog i drafod y camau nesaf yn unol â'r trefniadau lleol. Ni ddylai staff wynebu'r person y mae'r honiad wedi ei wneud yn ei erbyn na rhannu gwybodaeth gyda neb arall.

Os gwneir honiad posibl yn ymwneud ag amddiffyn plant yn erbyn y Pennaeth, rhaid i'r aelod o staff sy'n derbyn yr honiad hwnnw gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr. Yna bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cysylltu â'r Tîm Atgyfeirio Canolog i drafod y camau nesaf yn unol â'r trefniadau lleol. Os nad yw Cadeirydd y Llywodraethwyr ar gael, gall yr aelod o staff ofyn am gyngor gan y Tîm Atgyfeirio Canolog.

**Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ("Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" 2020) yn nodi bod angen i bob aelod o staff Addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda phlant, neu tuag at blant, yn annerbyniol.  O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol, 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft athro, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol â phlentyn dan 18 oed pan fo'r person hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol.  Mae hyn yn berthnasol pan fo'r plentyn mewn addysg amser llawn a'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

**CEFNOGI'R DISGYBL SYDD MEWN PERYGL**

Mae cam-drin plant yn ddinistriol i'r plentyn a gall hefyd arwain at drallod a phryder i staff sy'n dod i gysylltiad â'r mater. Rydym yn cydnabod y gall plant sydd mewn perygl, sy'n dioddef camdriniaeth neu sy'n dyst i drais gael eu heffeithio'n ddwfn gan hyn. Efallai mai'r ysgol hon yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel, ragweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai y byddant yn mynd i'w cragen. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy:

• Cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant

• Ethos yr ysgol/coleg sydd:
– yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
– yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i ddysgwyr (gweler adran 2 ar Atal)

• Polisi ymddygiad yr ysgol, sy'n ceisio cefnogi disgyblion agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniad ymddygiadol y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad yr unigolyn o hunan-werth.  Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw i'w feio am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.
• Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr megis swyddogion awdurdod lleol – er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion – gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau eiriolaeth.

cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn digwydd eto.
• Cymryd pob amheuaeth a datgeliad o ddifrif
• Enwebu person cyswllt a fydd yn rhoi gwybod i'r holl bartïon ac a fydd yn bwynt cyswllt canolog. Pan fo aelod o staff yn destun honiad a wneir gan ddisgybl, bydd pobl gyswllt ar wahân yn cael eu henwebu i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.
• Dylid ymateb yn gydymdeimladol i unrhyw geisiadau gan ddisgyblion neu staff am amser i ffwrdd i ddelio â gofid neu bryder.
• Dylid cadw cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar sail angen gwybod gydag unigolion ac asiantaethau perthnasol yn unig.
• Dylid storio cofnodion yn ddiogel.
• Cynnig manylion am linellau cymorth, cwnsela neu ffyrdd eraill o gymorth allanol gan gydweithio'n llawn ag asiantaethau statudol perthnasol, gan gynnwys gweithio gyda'r Heddlu a'r gwasanaethau plant yn unol â phrotocol Operation Encompass ac Operation Endeavour (gweler isod).

Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol.

**OPERATION ENCOMPASS/OPERATION ENDEAVOUR**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn Operation Encompass ac Operation Endeavour.

Crëwyd Operation Encompass i gefnogi plant sy'n profi cam-drin domestig trwy rannu gwybodaeth yn amserol rhwng yr heddlu ac ysgolion. Pwrpas Operation Encompass yw galluogi i gymorth gael ei roi i blant sy'n dioddef cam-drin domestig. Trwy Operation Encompass gall ysgolion helpu plant i ddeall beth sy'n digwydd gartref a sut i'w hamddiffyn eu hunain orau yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae'r wybodaeth y mae ysgol yn ei chael hefyd yn ei galluogi i baratoi ar gyfer y plentyn yn yr ysgol a sicrhau ei fod yn cael y cymorth y mae ei angen arno.

Pwrpas Operation Endeavour yw diogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny yr adroddwyd eu bod ar goll o'u cartref. Credir bod tua 25% o blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll mewn perygl o niwed difrifol. Mae pryderon penodol ynghylch y cysylltiadau rhwng plant yn rhedeg i ffwrdd a'r risgiau o gamfanteisio rhywiol. Nod Operation Endeavour yw sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig wedi'i nodi o fewn yr ysgol a'i fod wedi'i hyfforddi'n briodol. Dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r digwyddiadau cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth amserol ac wedi'i deilwra i blant a phobl ifanc ar ddechrau, ac yn ystod y diwrnod ysgol.

**Gwrth-fwlio**

Mae ein polisi ar wrth-fwlio wedi'i nodi mewn dogfen ar wahân ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

**Defnyddio ymyrraeth gorfforol**

Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol wedi'i nodi mewn (dogfen ar wahân) a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu, ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf

**Plant ag anghenion dysgu ychwanegol**

Rydym yn cydnabod, yn ystadegol, mai plant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn mwyaf o berygl o gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol, megis anableddau dwys a lluosog, nam synhwyraidd neu broblem emosiynol ac ymddygiadol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

**ADOLYGU**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i gadarnhau bob blwyddyn mewn cyfarfod corff llywodraethu llawn o leiaf unwaith y flwyddyn a'i gofnodi yn y cofnodion.  Wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, efallai y bydd yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn dymuno darparu gwybodaeth i'r Corff Llywodraethu am y canlynol: -

- newidiadau i weithdrefnau Amddiffyn Plant.
- hyfforddiant a wnaed gan yr holl staff a llywodraethwyr yn ystod y 12 mis blaenorol.
- nifer y digwyddiadau o natur Amddiffyn Plant a gododd yn yr ysgol yn ystod y 12 mis blaenorol (heb fanylion nac enwau).
- ble a sut y mae Amddiffyn Plant a Diogelu yn ymddangos yn y cwricwlwm.
- gwersi a ddysgwyd o achosion.